# Cyngor Partneriaeth y Trydydd Sector

## Tŷ Hywel, Caerdydd

## 20 Tachwedd 2019

## Cofnodion y cyfarfod

### Yn bresennol:

Jane Hutt AC, y Dirprwy Weinidog a'r Prif Chwip (y DWPCh)
Ruth Marks – CGGC
Judith Stone – CGGC
Anna Nicholl - CGGC
Carl Cooper – CGS Cymru
Rocio Cifuentes – Tîm Cymorth Ieuenctid Ethnig
Karen Whitfield – Cyswllt Amgylchedd Cymru
Andrew White – Stonewall Cymru
Helen Hayes – Fforwm Darparwyr Cyngor Annibynnol
Kate Young – Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Lles
Bev Hampson – Rhwydwaith Gwirfoddoli Cymru
Christopher Williams – Age Cymru
Gaynor Jones – Cyngor Ffoaduriaid Cymru
Adeloa Dewis – Cynghrair Pobl Dduon, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig
Claire Sain Ley Berry - CGGC/Cynnal Cymru

### Swyddogion Llywodraeth Cymru sy'n bresennol:

Alyson Francis - Dirprwy Gyfarwyddwr yr Is-adran Gymunedau
Chris Buchan – Pennaeth y Tîm Cymunedau a'r Trydydd Sector
Andrew Charles – Pennaeth Polisïau ar gyfer y Dyfodol
Aaron Fortt – Tîm y Trydydd Sector
Helen Brown – Tîm y Trydydd Sector
Emma May – Tîm y Trydydd Sector
Tanya Nash – Rheolwr Cyflawni Polisïau ar gyfer y Dyfodol
Lucy Corfield – Pennaeth y Tîm Datgarboneiddio

**Eitem 1 ar yr Agenda – Croeso a chyflwyniadau**

Agorodd y DWPCh y cyfarfod drwy groesawu pawb a rhoi cyfle i bawb gyflwyno'u hunain wrth iddynt gyfeirio at y materion i'w trafod.

**Eitem 2 ar yr Agenda – Cofnodion/camau gweithredu o gyfarfod diwethaf Cyngor Partneriaeth y Trydydd Sector (CPTS) a gynhaliwyd ar 15 Mai 2019**

Cytunwyd ar y cofnodion a'r camau gweithredu o gyfarfod diwethaf CPTS a gynhaliwyd ar 15 Mai 2019 ac maent wedi'u cyhoeddi ar wefan Llywodraeth Cymru.

Tynnodd y DWPCh sylw at log gweithredu cronnol CPTS a nodi bod yr holl gamau gweithredu naill ai wedi'u cwblhau neu yn mynd rhagddynt. Nododd Ruth Marks fod angen i'r log gweithredu fod yn eiddo ar y cyd i Lywodraeth Cymru a CPTS ac y dylai'r ddau gytuno arno.

**Camau gweithredu y cytunwyd arnynt:**

- Swyddogion yn Uned y Trydydd Sector i sicrhau bod log gweithredu CPTS yn cael ei gynhyrchu ar y cyd a CPTS yn y dyfodol a bod y ddau yn cytuno arno.

**Eitem 3 ar yr Agenda – Diweddariad ar gyfranogiad y sector gwirfoddol wrth weithredu Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015**

Pwyntiau allweddol a godwyd:

Soniodd y DWPCh am bwysigrwydd rôl y sector ac ategodd, fel rhan o'i chyfrifoldeb Gweinidogol dros Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, ei bod yn benderfynol o weithio mewn partneriaeth â'r trydydd sector, gan gyd-gynllunio cynigion i sefydlu sianeli mwy effeithiol ar gyfer cymryd rhan yn y gwaith hwn.

Amlinellodd Claire Sain-Ley-Berry ymchwil sy'n cael ei chynnal ar ran Cynnal Cymru/y Gynghrair Datblygu Cynaliadwy (a gymeradwywyd gan CGGC) i edrych ar y gwaith o greu rôl effeithiol ar gyfer y trydydd sector wrth gyfrannu at roi'r Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 ar waith. Mae'r gwaith hwn wedi arwain at adroddiad (i'w gyhoeddi'n fuan) sy'n cynnwys cyfres o argymhellion ar gyfer cyfrannu'n fwy effeithiol a chynhyrchiol.

Dywedodd y DWPCh ei bod yn edrych ymlaen at weld yr adroddiad ac ystyried yr argymhellion. Nododd hefyd ymrwymiad y Prif Weinidog i gynnwys dinasyddion a chyd-gynhyrchu, a thynnodd sylw at bŵer a llwyddiant Fforwm Cymdeithas Sifil ar Brexit.

Rhoddodd Andrew Charles ddiweddariad ar y gwaith i fwrw ymlaen â'r camau a gymerwyd yn y CPTS ym mis Mai i edrych ar y syniad o gael Fforwm Cymdeithas Sifil ar Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.

Nododd Andrew fod y gwaith wedi nodi pedwar math gwahanol o anghenion y mae angen i Fforwm posibl a strwythurau eraill geisio mynd i'r afael â hwy. Mae pecyn posibl o atebion yn cael ei fireinio ar hyn o bryd (gyda'r Trydydd Sector), a bydd yn cael ei brofi i lywio papur opsiynau ar gyfer y DWPCh yn y flwyddyn newydd. Bydd yr adroddiad a gynhyrchwyd gan Cynnal Cymru/y Gynghrair Datblygu Cynaliadwy yn llywio'r broses hon.

Soniodd Rocio Cifuentes am yr angen i sicrhau bod cymunedau Pobl Dduon ac Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig yn cael eu cynnwys wrth ddatblygu'r gwaith hwn yn y dyfodol, ac mae angen gwneud rhywfaint o waith ar y ffordd orau o wneud y cysylltiadau hyn a meithrin y berthynas. Roedd y DWPCh yn cytuno a dywedodd fod angen i unrhyw fforwm adlewyrchu amrywiaeth Cymru.

Croesawodd Helene Hayes y dull gweithredu hwn a gwnaeth sylwadau ar yr angen i gynnwys gwasanaethau cynghori annibynnol, yn enwedig o ran y data effaith y gallant eu darparu.

Nododd Ruth Marks waith sy'n mynd rhagddo gyda Swyddfa Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol i sicrhau bod y sector yn cael ei gynrychioli'n dda yn ei gwaith. Croesawodd y DWPCh y datblygiadau hyn.

Nododd Karen Whitfield fod angen buddsoddi a chefnogi dulliau o gymryd rhan os ydym am ymgysylltu â phobl y tu allan i rannau arferol y sector. Adleisiodd Claire Sain-Ley-Berry yr angen i adnoddau fod ar gael i weithredu gyda ffocws ar bwrpas, ymgysylltu, bod yn gynhwysol a meddu ar y grym i ddylanwadu.

Daeth y DWPCh a'r drafodaeth i ben drwy nodi bod cynnydd da wedi'i wneud ers mis Mai, a thanlinellodd y y pwysigrwydd o fynd drwy'r broses yn y ffordd gywir er mwyn sicrhau ein bod yn deall yr hyn sydd ei angen arnom a'r hyn y mae'n ei wneud. Nododd hefyd ei bod yn hanfodol bod y gwaith hwn yn parhau i gael ei gyd-gynllunio.

**Eitem 4 ar yr Agenda – Cydweithio i fynd i'r afael â'r Argyfwng Hinsawdd – Rôl y trydydd sector wrth greu ymateb ar y cyd**

Nododd y DWPCh ei bod wedi cwrdd â CGGC ers cyfarfod diwethaf CPTS ym mis Mai, i drafod y rôl hanfodol sydd gan y trydydd sector yn y gwaith o fynd i'r afael â'r argyfwng hinsawdd.

Nododd y DWPCh fod pob Gweinidog yn edrych ar eu portffolios mewn perthynas â hyn, ond cyfaddefodd nad yw'r trydydd sector bob amser yn flaenoriaeth ganddynt yn hyn o beth.

Diolchodd y DWPCh i'r sector am gymryd rhan yn y Gynhadledd ar y Newid yn yr Hinsawdd, digwyddiad gwerthfawr iawn yn ei thyb hi – a oedd yn cydnabod yr angen i weithio ar y cyd ar draws y sector a thu hwnt gyda'r sector cyhoeddus a busnes er mwyn taclo'r argyfwng.

Pwysleisiodd y DWPCh bwysigrwydd rôl a chyfraniad y sector wrth ddatblygu a chyflawni ein Cynllun Cyflenwi ar gyfer Cymru Gyfan nesaf yn 2021.

Cyflwynodd Anna Nicholl bapur trafod yn ymwneud â sut y datblygir rôl y trydydd sector mewn perthynas â'r mater hollbwysig hwn. Nododd Anna fod CPTS yn cydnabod bod y sector yn ased allweddol i daclo'r argyfwng y mae angen manteisio arno ar lawer o lefelau gwahanol. Mae'r CPTS yn cydnabod pa mor eang yw'r sector gwirfoddol a'r angen i gymryd rhan, drwy gydweithio ac archwilio atebion ymarferol. Nododd Anna fod angen i Lywodraeth Cymru a'r trydydd sector gydweithio er mwyn cyflawni mwy, ac mae'r sector yn awyddus i wneud hyn gan y bydd yn hanfodol i gynifer o agendâu fel cydraddoldebau, ymfudo a ffoaduriaid, ac iechyd.

Nododd Claire Sain-Ley-Berry yr anawsterau y mae cyllid ansicr yn eu creu wrth gyfyngu ar allu'r sector i helpu i fynd i'r afael â'r argyfwng – gan esbonio'r angen am barhad ac edrych yn ôl ar fentrau yn y gorffennol i weld beth sydd wedi gweithio.

Nododd Rocio Cifuentes yr effaith y bydd newid yn yr hinsawdd yn ei chael ar greu mwy o ffoaduriaid yn y byd a'r effaith y gallai hyn ei cael yng Nghymru. Yn y cyd-destun hwn, cyfeiriodd Rocio at ein cyfrifoldebau fel 'Cymru sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang' a'r gofyniad am weithredu trawsbynciol ar draws holl adrannau'r Llywodraeth.

Nododd Karen Whitfield fod Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi "Ffyniant i Bawb: Cymru Carbon Isel" sy'n cynnwys camau gweithredu ar gyfer y sector cyhoeddus. Dywedodd y byddai cynnwys y sector gwirfoddol wrth gynllunio unrhyw achos o ailadrodd hyn yn y dyfodol yn fuddiol. Nododd hefyd y cyfrifoldeb ar y cyd ar draws y Cabinet ar gyfer mynd i'r afael â'r argyfwng hinsawdd, ond holodd a oedd unrhyw un Gweinidog yn gyfrifol am sicrhau bod newid yn yr hinsawdd yn cael ei ystyried wrth wneud penderfyniadau ynghylch pethau fel gwariant er enghraifft?

Dywedodd y Dirprwy Weinidog a'r prif chwip fod y Cabinet cyfan yn gweithredu i fynd i'r afael â'r mater hwn a bod y gyllideb yn cael ei hadolygu o safbwynt carbon isel. Esboniodd nad yw hyn yn ymwneud â faint o arian sy'n cael ei wario ond newid y ffordd y mae'r gwariant presennol yn digwydd, gan edrych ar bopeth mewn ffordd wahanol i sicrhau bod ein gwariant cyllidebol, ein polisïau a'n cyllid grant i gyd yn cael eu hystyried o safbwynt argyfwng hinsawdd.  Eglurodd y

DWPCh mai Lesley Griffiths AC, Gweinidog yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig, yw'r Gweinidog arweiniol sy'n gyfrifol am faterion yn ymwneud â'r newid yn yr hinsawdd. Roedd y DWPCh yn cytuno bod angen i unrhyw adolygiad o "Cymru Carbon Isel" gynnwys y Trydydd Sector

Dywedodd Lucy Corfield fod Llywodraeth Cymru ar ddechrau'r broses o greu Cynllun Cyflenwi ar gyfer Cymru gyfan (ar gyfer 2021), a chroesawodd y cyfle i ddechrau trafod â'r trydydd sector eu gwaith mewn perthynas â hyn cyn gynted â phosibl.

Soniodd Andrew Charles am y ffordd y mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn llywio'r broses sicrwydd grantiau o fewn Llywodraeth Cymru.

Nododd Christopher Williams fod llawer o botensial mewn meysydd fel tai a thrafnidiaeth gymunedol lle gallai'r sector helpu i godi ymwybyddiaeth a helpu i fynd i'r afael â'r argyfwng hinsawdd. Nododd fod cael safbwyntiau amrywiol yn bwysig iawn, a bod angen penodol i ymgysylltu mwy â phobl hŷn.

Roedd y DWPCh yn cytuno ac yn awgrymu y byddai'r Fforwm Pobl Hŷn yn gyfrwng da i godi hyn.

Nododd Gaynor Jones fod agwedd y trydydd sector ehangach yn eithaf gwahanol o ran yr agenda hon, a bydd yn bwysig sicrhau bod yna lais ar y cyd.

Daeth y DWPCh a'r drafodaeth i ben drwy nodi bod hyn yn ymwneud â chynnwys dinasyddion cymaint â sefydliadau, ac yn yr ystyr hwnnw bydd y sector yn allweddol. Dywedodd hefyd fod cyfleoedd gwirioneddol i dorri tir newydd gyda chymorth y sector. Nododd y DWPCh ei bod bellach yn hanfodol i'r sector fod yn rhan o'r gwaith o greu a chyflawni'r Cynllun Cyflenwi ar gyfer Cymru gyfan.

**Camau gweithredu y cytunwyd arnynt:**

- Bydd rhwydweithiau'r trydydd sector a swyddogion Llywodraeth Cymru (o'r Tîm Datgarboneiddio ac Uned y Trydydd Sector) yn cydweithio i ddatblygu cynigion ar sut y gallwn gydweithio i fynd i'r afael â'r argyfwng hinsawdd – yn benodol er mwyn dechrau trafodaethau ynghylch cynnwys y sector yn y gwaith o ddatblygu a chyflawni cynllun cyflenwi Cymru gyfan (ar gyfer 2021).

**Eitem 5 ar yr Agenda - Drafft o Theori Newid ar gyfer Cynllun y Trydydd Sector**

Rhoddodd Judith Stone y wybodaeth ddiweddaraf i'r cyngor am y gwaith o gynhyrchu drafft o Theori Newid ar gyfer Cynllun y Trydydd Sector, fel rhan o'r Cynllun Gwella Cyffredin ar gyfer gwella'r ymgysylltu rhwng Llywodraeth Cymru a'r trydydd sector. Mae'r theori newid drafft wedi cael ei chynhyrchu gan rwydweithiau CPTS, CGGC ac Uned y Trydydd Sector Llywodraeth Cymru.

Croesawodd y DWPCh y cynnydd a wnaed ac roedd yn falch o weld dull gweithredu mwy strwythuredig yn ei le i helpu i ddangos gwerth ac effeithiolrwydd Cynllun y Trydydd Sector, yn ogystal â rhoi gwell ymdeimlad o bwrpas cyffredin i ni. Roedd y DWPCh hefyd yn falch bod dull gweithredu cadarnhaol, cyd-gynhyrchiol yn cael ei ddefnyddio ar gyfer y gwaith hwn, a nodwyd y

dylem ymfalchïo yng Nghynllun y Trydydd Sector yng Nghymru ond bod angen inni wneud yn siŵr ei fod yn gweithio i gymdeithas heddiw.

Ailadroddodd Carl Cooper bwynt a wnaed yng nghyfarfodydd blaenorol CPTS, sef y dylem ymfalchïo yng Nghynllun y Trydydd Sector yng Nghymru. Fodd bynnag, nid yw'n cael ei adlewyrchu ar lefel leol i atgyfnerthu gwerth a chyfraniad y sector; a lle ceir enghreifftiau bod hyn yn digwydd, mae'n seiliedig ar egwyddorion yn hytrach na gweithredu pendant. Gofynnodd Carl a oes rhywbeth y gall Llywodraeth Cymru ei wneud i annog yr hyn sydd gennym yng nghynllun y trydydd sector ar lefel leol.

Dywedodd y DWPCh fod y berthynas rhwng y trydydd sector a llywodraeth leol ar agenda'r Cyngor Partneriaeth Llywodraeth Leol ym mis Ionawr o ganlyniad i gamau gweithredu a gymerwyd yng nghyfarfod y CPTS ym mis Mai (ac ar gais Peter Davies), gyda'r posibilrwydd y bydd cyfarfod dwyochrog yn y dyfodol rhwng y DWPCh a'r Gweinidog Tai a Llywodraeth Leol i drafod y mater hwn. Gwnaeth y DWPCh ofyn i aelodau'r Cyngor roi enghreifftiau o achosion lle mae'r berthynas rhwng y trydydd sector a llywodraeth leol yn gweithio'n dda.

Nododd Aaron Fortt fod yr Ymddiriedolaeth Adeiladu Cymunedau wrthi'n arwain darn o waith gyda'r sector a fydd yn casglu enghreifftiau o le mae'r berthynas rhwng y trydydd sector a Llywodraeth Leol yn gweithio'n dda.

**Camau gweithredu y cytunwyd arnynt:**

- Pan fydd gwaith y Theori Newid yn mynd rhagddo'n ddigonol, bydd yn cael ei rannu'n gyhoeddus (drwy e.e. datganiad ysgrifenedig) a chyda'r Cabinet – gan bwysleisio ei werth fel enghraifft o gyd-gynllunio a'i gysylltiadau â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn nhermau canlyniadau a ffyrdd o weithio.

- Cynghorau Gwirfoddol Sirol i roi enghreifftiau i'r Dirprwy Brif Weinidog o le mae'r berthynas rhwng y trydydd sector a llywodraeth leol yn gweithio'n dda, gan gynnwys drwy drefniadau compact lleol.

- Swyddogion yn yr Uned Trydydd Sector i sicrhau bod y gwaith sy'n cael ei wneud gan yr Ymddiriedolaeth Adeiladu Cymunedau gyda'r sector ehangach yn cael ei gyflwyno i'r DWPCh pan fydd wedi'i ddatblygu'n ddigonol.

**Eitem 6 ar yr Agenda - Unrhyw fater arall a sylwadau i gloi**

Rhoddodd Rocio Cifuentes ddiweddariad ar waith Is-bwyllgor Ariannu a Chydymffurfiaeth CPTS sydd wedi cyfarfod ddwywaith ers cyfarfod diwethaf CPTS. Cynhaliwyd y cyfarfod diwethaf ar 12 Tachwedd. Mae camau gweithredu'n parhau/wedi'u cynllunio o amgylch deialog â CLlLC a'r Ganolfan Ragoriaeth Grantiau ynghylch eu cyfranogiad, ynghyd â rôl allweddol i CPTS o ran nodi materion systemig, tueddiadau ac arferion da a sut y deuir â hwy i sylw'r is-bwyllgor. Mae'r Is-bwyllgor hefyd yn adolygu ei Gylch Gorchwyl i gyd-fynd â'r Theori Newid sy'n cael ei datblygu ar gyfer Cynllun y Trydydd Sector.

Nododd y DWPCh y diweddariad a phwysleisiodd ei bod yn bwysig i'r Ganolfan Ragoriaeth Grantiau fod yn rhan o'r gwaith hwn.

Diolchodd y DWPCh i'r aelodau am gyfarfod a oedd wedi'i gynllunio a'i strwythuro'n dda.

Diolchodd y DWPCh yn ffurfiol i Catriona Williams am ei chyfraniad amhrisiadwy i'r CPTS fel cynrychiolydd buddiannau plant a theuluoedd yng Nghymru, a dymunodd yn dda iddi ar ei hymddeoliad.

**Camau gweithredu y cytunwyd arnynt:**

- Bydd yr Is-bwyllgor Ariannu a Chydymffurfiaeth yn dechrau dod ag eitemau gerbron CPTS fel y bo'n briodol.

- Bydd y DWPCh yn anfon llythyr swyddogol o ddiolch at Catriona Williams.